- The Awen Institute's research activities and outputs could help future-proof the economy by enabling businesses and other economic players to equip themselves with the knowledge and insight they need to benefit fully from this increasingly-significant market opportunity.

The Computational Foundry as its WEFO funded period ends

- Despite the very challenging period, the Computational Foundry (CoFo), not only met, but exceeded targets, especially in terms of winning funding (£26M) and external engagement, including Wales industry, health, local government and grassroots communities (303 unique partners). Crucially the impact of the Foundry is far wider in Wales' economy and social fabric than the measurable impacts within the university.

Accelerate

- This has already lost/ is losing colleagues. AgorIP is a team of ~15 scientists, including secondees embedded in health boards across Wales, and is due to close. The team has been developing innovations throughout the COVID-19 pandemic to address immediate and longer-term NHS needs. Investment has been ~£24m and ~£13m, respectively, but the headlines are the people and the activities. They have collectively supported scores of innovations by exploring hundreds of opportunities.
- Applications to develop healthcare innovations were explored, and connections made with relevant partners from the large networks developed through the project, including industrial companies, health care practitioners and academic researchers across Wales. For many projects, a short collaborative project with clear high impact outcomes was defined and undertaken by staff with individual expertise, utilising our 'state of the art' laboratory facilities which provided access to the highest standard of equipment. The development of new products and processes for scores of companies was documented each quarter. More details and case studies are available here: <https://www.swansea.ac.uk/medicine/enterprise-and-innovation/business-support-projects/accelerate-healthcare-technology-centre/>

Personal testimonies

- A colleague made redundant stated: "I could see so much being achieved each week; the number and diversity of projects supported means this work almost defies description."
- "My fixed term contract ended on 31/03/23 and I am currently employed on very short-term projects (until 31/07/23). The insecurity is incredibly stressful. I am looking for and applying for jobs, whilst also servicing a busy work schedule and trying to network and find sources of funding that could keep me employed."
- "I am still trying to keep the work 'live' (applying for small amounts of short-term funding) whilst at the same time, delivering all work to grant funders in short timescales. I am considering leaving academia. I am also considering selling my house, as I live alone, as a single wage earner and feel very stressed about pending unemployment and not being able to pay my mortgage and bills."

Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig

Craffu Cyffredinol – Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

Economi werdd

Mae ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, a gyhoeddwyd yn 2021, yn amlinellu ein cynlluniau i hyrwyddo Cymru fel economi carbon isel; economi gylchol gyda lefelau uwch o gylcholdeb, arloesedd ac effeithlonrwydd o ran adnoddau.

Ym mis Mawrth 2021, gosododd y Senedd darged i Gymru o gyrraedd sefyllfa "carbon sero net" erbyn 2050. Yn 2022, sefydlwyd Diwydiant Sero Net Cymru. Bydd yn cyd-drefnu gweithgareddau datgarboneiddio diwydiannol gan ei aelodau, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau datgarboneiddio'r Rhaglen Lywodraethu a'r cynllun i ddod yn genedl Sero Net erbyn 2050.

Mae Gweinidogion wedi gosod targed i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Maen nhw hefyd wedi gosod targed bod 70% o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030.

Yn unol â'r uchelgeisiau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ehangu'r defnydd o ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan yng Nghymru, gan gynnwys gwynt ar y tir, gwynt ar y môr, ynni'r môr ac ynni solar.

Mae busnesau yng Nghymru yn gyfrifol am oddeutu 20% o holl allyriadau diwydiannol a busnes y DU. O'r 20% hwnnw, gellir priodoli'r rhan fwyaf o allyriadau diwydiannol a busnes Cymru yn uniongyrchol i gwmnïau ar hyd coridor yr M4, a hynny oherwydd ein treftadaeth ddiwydiannol yn y sectorau dur, olew, nwy a chemegion yn Ne Cymru i raddau helaeth.

Yn amlwg, bydd sicrhau llwybrau datgarboneiddio ar gyfer ein sectorau sy'n allyrru lefelau uchel o garbon yn cyfrannu'n sylweddol at gyrraedd sefyllfa sero net yng Nghymru.

Yng Nghymru, rydym yn disgwyl y bydd datblygu a chynyddu opsiynau technolegol ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol, fel newid tanwydd a dal, defnyddio a storio carbon, yn cael effaith drawsnewidiol ar allyriadau o ddiwedd y 2020au a thrwy gydol y 2030au.

Wrth gefn y newid hwn bydd cydweithio â chlystyrau diwydiannol, rhwydwaith ynni wedi'i ddatgarboneiddio gyda gwell seilwaith grid a mynediad at gyllid ar draws y DU i roi cynlluniau datgarboneiddio ar waith.

Yn ôl asesiad y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, mae tua 60% o'r newidiadau sydd eu hangen yng Nghymru i sicrhau llwybr at sero net erbyn 2050 yn dod o dan bwerau sydd wedi'u cadw'n ôl i San Steffan gan fwyaf. Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb i gyflawni'n briodol ar gyfer Cymru, gan na all y DU gyrraedd ei thargedau sero net heb weithredu yng Nghymru. Ar y llaw arall, ni all Cymru gyrraedd sero net heb i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan yn deg.

Mae heriau pellach yn bodoli o ran yr opsiynau technoleg sydd ar gael sy'n helpu i ddatgarboneiddio'r diwydiant dur. Mae'r rhain yn cynnwys Dal a Storio Carbon neu newid tanwydd i hwyluso proses o gynhyrchu dur sy'n allyrru llai o garbon. Mae cost ariannol sylweddol ynghlwm wrth yr holl opsiynau, ac mae gan Tata Steel gynlluniau datgarboneiddio manwl ar gyfer eu gweithrediadau dur a haearn integredig ym Mhort Talbot. Mae'r rhain ar stop ar hyn o bryd, wrth i'r trafodaethau barhau â Llywodraeth y DU ar becyn posibl o gymorth ariannol sy'n angenrheidiol yn ôl y cwmni er mwyn iddyn nhw allu gwneud y newid.

Byddai diffyg cymorth gan Lywodraeth y DU yn arwain at risg o golli un o blith dim ond dau safle cynhyrchu dur sylfaenol yn y DU. Byddai hyn, yn ei dro, yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gymunedau lleol ac ar gadwyn gwerth dur y DU drwyddi draw. Rydym yn dal i ymgysylltu'n rheolaidd ag uwch swyddogion gweithredol Tata Steel UK a Llywodraeth y DU ar hyn er mwyn helpu i sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r sector dur yng Nghymru.

Bydd Diwydiant Sero Net Cymru yn helpu clystyrau diwydiannol Cymru gyda'u taith i gyrraedd sero net. Bydd Diwydiant Sero Net Cymru yn gweithio gyda'i sefydliadau sy'n aelodau i ddatblygu llwybrau sero net ar gyfer diwydiant yng Nghymru, ac i helpu gyda'r gwaith o gyd-drefnu datblygiadau seilwaith rhanbarthol er mwyn gallu newid i ddyfodol carbon isel. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion a fydd yn cyfrannu at waith Llywodraeth y DU ar ddulliau heblaw am biblinellau o gludo CO₂. Gallai hyn fod yn hanfodol i ddatgarboneiddio diwydiant a chynhyrchu pŵer yn Ne Cymru. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd sut bydd modelau busnes Llywodraeth y DU yn cefnogi dulliau heblaw am biblinellau o gludo CO₂.

Yng Ngogledd Cymru, rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ystyried opsiynau i helpu i gyflymu'r gwaith o gyflwyno seilwaith hydrogen Gogledd Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau peilot Hwb Hydrogen a Chludo Hydrogen yn Sir y Fflint ac Ynys Môn. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod HyNet wedi cael ei ddewis fel un o ddau Glwstwr Diwydiannol y DU, o dan ei menter Trac-1 ar gyfer Proses Pennu Dilyniant o Glystyrau Dal, Defnyddio a Storio Carbon. Mae camau cychwynnol y prosiect yn canolbwyntio ar gynhyrchu hydrogen yng Ngogledd-orllewin Lloegr ac ar adeiladu seilwaith Dal, Defnyddio a Storio Carbon, gan gynnwys piblinellau CO₂ drwy Ogledd Cymru at safleoedd storio alltraeth mewn meysydd olew a nwy wedi'u haddasu, sy'n cael eu gweithredu gan Eni UK ym Mae Lerpwl. Mae'r cam ehangu yn bwriadu cynnwys piblinellau hydrogen i Gei Connah ar gyfer prynwyr diwydiannol yng Ngogledd Cymru.

Sgiliau

Ym mis Chwefror 2023, lanswyd ein Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net. Mae'r Cynllun yn gam cyntaf pwysig i ddeall rôl sgiliau o ran sicrhau pontio teg i sefyllfa sero net.

Mae'r her i gyflawni ein hymrwymiad sero net yn un enfawr, a bydd ein hanghenion sgiliau yn y dyfodol yn galw am ddull gweithredu cydweithredol ar draws yr economi gyfan. Wrth lunio'r cynllun buom yn gweithio ar draws y llywodraeth, gyda rhanddeiliaid allanol a phartneriaid allweddol i gael darlun o'r dirwedd sgiliau sero net yn erbyn yr wyth sector allyriadau sydd wedi'u hamlinellu yn Sero Net Cymru.

Mae ein huchelgeisiau sero net yn cynnwys dyfodol gwell, tecach a gwyrddach i bob un ohonom. Mae sgiliau yn alluogydd allweddol i gyflawni'r uchelgeisiau hyn, gan sicrhau bod y broses o drawsnewid yn deg ac nad yw'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu llethu'n annheg gan gostau newid. Bydd y newidiadau sy'n cael eu sbarduno gan yr angen i ddatgarboneiddio ein heconomi yn effeithio ar ddiwydiannau, sectorau'r gweithlu a grwpiau economaidd-gymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd; gan ddibynnu ar y llwybrau, y polisiau a'r camau gweithredu rydym ni'n eu dewis. Drwy ein Cynllun Gweithredu Sero Net, byddwn yn sicrhau nad yw'r cyfleoedd a ddaw yn sgil datgarboneiddio yn mynd yn heriau beichus, ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Rydym eisiau gweithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid, gydag undebau a busnesau, i wella sgiliau ein gweithlu presennol, ond hefyd i ddenu a dal gafael ar weithlu'r dyfodol wrth i ni ddatblygu economi Cymru tuag at sero net. Mae hyn yn her allweddol. Hyd yn oed mewn diwydiannau parhaus, mae'r gofynion sgiliau yn newid wrth i dechnoleg ddatblygu. Bydd datgarboneiddio yn ddim ond un o'r ffactorau a fydd yn sbarduno creu swyddi newydd a'r newid yng ngofynion sgiliau'r swyddi sydd eisoes yn bodoli, dros y degawdau nesaf.

Mae'n debygol mai'r effeithiau mwyaf fydd y newidiadau i'r sgiliau ar gyfer y swyddi rydym ni'n eu gwneud ar hyn o bryd. Mae graddfa a natur y newidiadau hyn yn debygol o amrywio'n fawr. Byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel yr egwyddor arweiniol wrth fynd ati i newid i sefyllfa sero net yng Nghymru. Bydd hyn yn ein galluogi i leihau'r effeithiau a hefyd, yn hollbwysig, i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'n eu darparu i weithwyr a chymunedau yng Nghymru.

Cyn bo hir byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar sgiliau sero net yn yr wyth sector allyriadau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu map sgiliau. Bydd y mapiau'n amlinellu cerrig milltir o ran cyfleoedd buddsoddi, newidiadau yn arferion y diwydiant sy'n cyd-fynd â lleihau carbon, technolegau newydd, datblygiadau, polisiau, gweithgareddau newid ac ati; yr holl ffactorau a fydd yn effeithio ar y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r newidiadau allweddol hyn. Yn sgil y manylion hyn, bydd modd rhoi lle blaenllaw i gynlluniau a pholisiau sgiliau er mwyn ysgogi a chreu gweithlu'r dyfodol.

Ymchwil ac Arloesi

Mae Cymru wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu ymchwil ac arloesi. Mae'r pwyslais cynyddol ar ymchwil, datblygu ac arloesi yn cael ei arwain gan y galw ac mae'n cyd-fynd ag anghenion diwydiannol, busnes a chymdeithasol Cymru.

Wrth i ni ddod at ddiwedd cyfres o raglenni SMART ERDF, sy'n dod i ben yn 2023, ac yn unol â'n Strategaeth Arloesi newydd, rydym yn cyflwyno dull newydd mwy hyblyg o gefnogi gweithgareddau arloesi mewn sefydliadau ar draws yr ecosystem – Cymorth Arloesi Hyblyg SMART (SMART FIS).

Bydd y cynllun newydd hwn yn sicrhau na fydd cymorth yn cael ei gyfyngu i fusnesau a sefydliadau ymchwil mwyach. Bydd yn agored i unrhyw sefydliad sy'n

dymuno ymgymryd ag ymchwil, datblygu ac arloesi a buddsoddi yn hynny, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Bydd y cymorth hwn yn cael ei werthuso'n gyson, ac yn cael ei fireinio yn unol â'r ymrwymïadau yn y strategaeth arloesi. Cynhelir lansiad swyddogol ar 8 Mehefin.

Strategaeth Arloesi

Mae ein strategaeth *Cymru'n arloesi*, a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror, yn dangos y ffordd tuag at agwedd wahanol at arloesi. Mae'n mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth, gan flaenoriaethu gwaith trosi, hyrwyddo cydweithio amlddisgyblaethol, hyrwyddo arferion gorau a chyd-fynd â nodau ein Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r strategaeth yn grymuso'r holl randdeiliaid i gydweithio tuag at nodau cyffredin ar gyfer arloesedd, ac i ddenu buddsoddiad ar gyfer arloesedd o ffynonellau allanol – Llywodraeth y DU yn bennaf – yn unol â'n hamcanion cyffredin.

Mae Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu, a fydd yn nodi nifer bach o nodau ym mhob maes cenhadaeth, y camau y byddwn yn eu cymryd gyda phartneriaid, mesurau a cherrig milltir tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

Bydd yn ddogfen fyw, gyda digon o hyblygrwydd dros amser i ymateb i newidiadau yn y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd, er mwyn dod o hyd i gyfleoedd gwahanol a gwell.

Cymorth i fusnesau

Busnes Cymru yw gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru, sy'n helpu microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, a darpar entrepreneuriaid o bob oed i gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu busnesau a'u datblygu.

Gan fod Llywodraeth y DU yn gwrthod gadael i Lywodraeth Cymru gael mynediad at gyllid sy'n cymryd lle cronfeydd yr UE drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae hynny'n creu bwlch cyllid sylweddol ar gyfer gwasanaeth Busnes Cymru. I liniaru hyn, rydym yn buddsoddi £20.9m ychwanegol y flwyddyn o gyllid Llywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2025 i lenwi'r bwlch ac ymestyn y gwasanaeth craidd y tu hwnt i ddiwedd cyllid yr UE yn 2023.

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael mynediad o gwbl at y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynnal cyllid ar gyfer cynlluniau busnes a chyflogadwyedd sydd ar waith ledled Cymru ac a oedd yn arfer cael eu hariannu gan yr UE, mae Llywodraeth y DU wedi brigdorri £101m o ddyraniad Cymru, sef £585m, i ariannu blaenoriaeth yr Adran Addysg i ddarparu rhaglen rhifedd i oedolion, sef Lluosi.

Cytundebau Masnach Awstralia a Seland Newydd

Mae Llywodraeth y DU, o dan y Ddeddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd), wedi gwneud newidiadau deddfwriaethol i weithredu penodau Caffael y Llywodraeth yn y Cytundebau.

Mae is-ddeddfwriaeth, sef Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023, wedi cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd), a fydd yn dod i rym ar 26 Mai. Bydd y Rheoliadau'n sicrhau y gall Cymru weithredu rhwymedigaethau caffael sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundebau.

Mae'n bwysig pwysleisio nad Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr hyn a gytunwyd yn y cytundebau. Ein rôl ni mewn trafodaethau yw sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall ym mhle gall cytundebau greu cyfleoedd, risgiau neu heriau i Gymru.

Mae'r ddau gytundeb yn cynnwys cyfleoedd i Gymru; er enghraifft, mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau sy'n dymuno gweithredu yn Awstralia neu Seland Newydd, ond mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu llesteirio gan risgiau posibl, fel cynnig mwy o fynediad i'r farchnad ar gyfer cynnyrch amaethyddol.

Mae llwyddiant unrhyw gytundeb masnach yn dibynnu ar sut bydd busnesau'n defnyddio'r telerau masnach newydd, ac mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnig pob math o gymorth cynhwysfawr i fusnesau i ddatblygu masnach ryngwladol mewn marchnadoedd allweddol. Yn ddiweddar, cafodd Gweinidog yr Economi gyfarfod â'r Gweinidog Huddleston i ystyried sut gall gwaith Llywodraeth y DU i helpu busnesau sy'n allforio i Awstralia a Seland Newydd ategu ein gwaith ein hunain.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i gyflwyno rhaglen uchelgeisiol ar gyfer cymorth allforio a hybu masnach drwy weithredu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio. Fel rhan o hyn, ym mis Mawrth, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi fuddsoddiad o dros £4m i ddarparu pecyn cymorth o bwys i helpu busnesau Cymru i allforio'n fyd-eang.

Mae pob math o gymorth yn bosibl o ganlyniad i'r cyllid, ac mae'n amrywio o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; helpu busnesau i ddod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chael mynediad at farchnadoedd tramor, gan gynnwys y rheini lle cytunwyd ar Gytundebau Masnach Rydd.

Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i helpu busnesau i baratoi at unrhyw gyfleoedd a ddaw yn sgil cytundebau masnach rydd newydd ac i fanteisio i'r eithaf arnynt, gan gynnwys, er enghraifft, drwy gymorth a chynghor pwrpasol 'ar lawr gwlad' drwy ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol, sy'n gweithio ledled Cymru; rhaglen o weminarau ar bynciau a marchnadoedd allforio penodol; a theithiau masnach i farchnadoedd allweddol (gan gynnwys, ymysg eraill, taith fasnach i Awstralia yng ngwanwyn 2024).

Ffiniau a Buddsoddiadau Rhanbarthol

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Model Gweithredu Targed drafft ar 5 Ebrill, a gytunwyd gennym ni. Mae o fudd i ni gael dull gweithredu cydlynol ar gyfer ein ffiniau

ar draws Prydain Fawr. Mae'r Model Gweithredu Targed drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad, a bydd y model terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

Nes ein bod ni i gyd yn deall goblygiadau Fframwaith Windsor a nes bod gennym gynigion am drefn ymarferol ar gyfer nwyddau sy'n dod o ynys Iwerddon i Gymru, mae'n anodd iawn gwneud penderfyniadau ar drefniadau ymarferol i reoli ffiniau ym mhorthladdoedd Cymru.

Mae'n hanfodol bod gennym reolau clir a gorfodadwy ar gyfer nwyddau sy'n dod o ynys Iwerddon i Brydain Fawr. Heb hynny, ni fydd yr awdurdodau na'r masnachwyr yn gwybod digon i allu paratoi at weithredu'r archwiliadau hyn yn llyfn.

Rydym yn benderfynol o roi rhybudd rhesymol i fusnesau baratoi ar gyfer archwiliadau ffisegol llawn unwaith y bydd gennym y rheolau.

Mae Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU wedi arwain adolygiad o Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig Caergybi, gyda'r bwriad o ystyried maint a chost.

Ar ôl ystyried yr opsiynau, cytunwyd i fwrw ymlaen â chynlluniau ar Blot 9 Parc Cybi, gyda chyfleuster llai a fydd yn gwneud mwy o ddefnydd o fannau a rennir a threfniadau glanhau mwy dwys. Mae'r cynllun wedi cael ei adolygu'n feirniadol er mwyn lleihau gwaith ychwanegol – er enghraifft osgoi tir gwael, a gwneud yn fawr o adeiladwaith blaenorol fel yr ardal aros bresennol i gerbydau nwyddau trwm.

Mae angen ffurfioli'r gwaith ailddylunio er mwyn gallu cytuno, prisio a dechrau ar y gwaith adeiladu o fis Medi ymlaen.

Yn Sir Benfro, mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ddeall y trefniadau archwilio newydd a cheisio defnyddio dull cyson i leihau ôl troed adeiladau yn sgil llai o archwiliadau. Mae cyfleoedd cyflawni yn y porthladd (on-port delivery) yn bosibl, a dylid eu datblygu mewn partneriaeth wrth i achosion busnes gael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd.

Porthladdoedd Rhydd

Mae'r Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru yn gyfle i fanteisio ar botensial economaidd helaeth Cymru. Rhaid i Borthladd Rhydd yng Nghymru weithredu o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ymrwymadau sero net Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r Rhaglen yn cynnwys ein polisiau ar waith teg a phartneriaeth gymdeithasol i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, er mwyn iddyn nhw allu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu.

Mae Porthladdoedd Rhydd yn ardaloedd arbennig o fewn ffiniau'r DU lle mae rheoliadau economaidd gwahanol yn berthnasol. Drwy fuddsoddi mewn safleoedd penodol sy'n elwa o gynlluniau tollau a threth, mae Porthladdoedd Rhydd yn bwriadu creu miloedd o swyddi o ansawdd uchel mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r safleoedd hyn wedi cael eu dewis yn ofalus ar sail eu haddasrwydd

i gael eu datblygu gan awdurdodau lleol a phartneriaid preifat allweddol ac maen nhw o fewn ffin allanol, sy'n cynrychioli'r lleoliad daearyddol lle mae manteision Porthladdoedd Rhydd yn cael eu targedu ac nid yw, ynndo'i hun, yn cyflwyno unrhyw dreth, tollau na statws arall arbennig.

Bydd amrywiaeth o gymelliadau treth ar gael i fusnesau cymwys mewn Porthladdoedd Rhydd. Bwriad y rhyddhadau treth hyn yw:

- sefydlu'r Porthladd Rhydd fel canolfan genedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddiadau byd-eang ar draws yr economi.
- annog cymaint o fusnesau â phosibl i agor, ehangu a buddsoddi yn y Porthladdoedd Rhydd. Bydd hynny, yn ei dro, yn hybu'r broses o adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel.
- sbarduno arloesedd – creu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau'r DU, sy'n sbarduno'r broses o wella cynhyrchiant, a fydd yn dod â swyddi a buddsoddiad i ardaloedd Porthladd Rhydd.

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladdoedd Rhydd Celtaidd yn sbarduno twf a chyflogaeth yn eu hardaloedd. Gyda'i gilydd, gallai eu cynigion uchelgeisiol greu cynifer â 20,000 o swyddi newydd.

Roedd angen i gynigwyr hefyd egluro sut mae eu dewis o leoliad(au) ar gyfer safleoedd treth yn lleihau'r dadleoli o ardaloedd lleol ehangach, yn enwedig ardaloedd eraill o sydd dan anfantais economaidd.

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladdoedd Rhydd Celtaidd yn ganolfannau ar gyfer adfywio, arloesi a masnach fyd-eang, gan greu'r cyfle i ddenu dros £1 biliwn o fuddsoddiad a fydd o fudd nid yn unig i'w cymunedau cyfagos, ond i Gymru gyfan a gweddill y DU hefyd.

Mae'r ddau Borthladd Rhydd bellach wedi symud ymlaen i gam nesaf y broses, a bydd swyddogion o'r ddwy lywodraeth yn mynd ati'n awr i gynorthwyo'r Porthladdoedd Rhydd i fod yn weithredol. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau llywodraethu addas, datblygu achosion busnes amlinellol a llawn, ac os byddan nhw'n llwyddiannus – dynodi safle treth a thollau.

Bydd y cynigion llwyddiannus yn cael hyd at £26 miliwn yr un o fuddsoddiad cychwynnol, yn ogystal â phecynt o fuddion a allai gynnwys rhyddhad ardrethi annomestig a rhyddhad treth, cynlluniau wedi'u symleiddio, dynodiad safle tollau, a chymorth ehangach gan y llywodraeth ar gyfer masnachu, buddsoddi ac arloesi.

Mae'r cynnig Celtaidd yn bwriadu canolbwyntio ar dechnolegau carbon isel fel ffermydd arnofiol gwynt ar y môr (FLOW), hydrogen, dal, defnyddio a storio carbon (CCUS) a biodanwyddau i gefnogi'r broses o leihau allyriadau carbon yn gyflym.

Mae cynnig Ynys Môn yn bwriadu adeiladu ar y Rhaglen Ynys Ynni – gan ganolbwyntio ar brofi technoleg ynni'r Môr ar wely'r môr (llanw/Gwynt) ac ynni carbon isel.

Bydd y broses o ddatblygu'r Achosion Busnes Amlinellol yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut bydd y cynigion hyn yn cael eu cyflawni.

Ni fydd safleoedd treth Porthladd Rhydd yn cael eu cymeradwyo nes bydd ei Achos Busnes Amlinellol wedi cael ei gymeradwyo, ac mae'r Llywodraeth yn cadw'r hawl i beidio â bwrw ymlaen i ddynodi safle treth posibl ar gyfer Porthladd Rhydd y mae'n credu nad yw'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y Prosbectws Cynnig, nad yw'n cynrychioli gwerth da am arian, na defnydd gorau, effeithiol neu bosibl o bwerau'r safle treth.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Papur tystiolaeth ar gyfer Craffu Cyffredino y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd ym Mhwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

5/6/2023

Gwybodaeth a ddarparwyd i gynorthwyo'r Pwyllgor cyn i'r Gweinidog fod yn bresennol ar gyfer Gwaith Craffu Cyffredinol ar 21 Mehefin.

Cynnwys

Bil Amaethyddiaeth (Cymru)	3
Dynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.....	4
Polisi Bwyd	5
Contractau Glastir.....	7
Gwneud y mwyaf o wariant yr UE ar y Cynllun Datblygu Gwledig - Adroddiad Archwilio Cymru.....	8
Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.....	9
Rhaglen i Ddileu TB mewn Gwartheg	11

Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Pasiodd y Bil Gam 3 ym mhroses graffu'r Senedd ar 16 Mai. Cytunwyd ar y 37 o welliannau gan y Llywodraeth, 5 gwelliant a gyflwynwyd gan Blaid Cymru (4), a'r Democratiaid Rhyddfrydol (1). Ni chytunwyd ar 32 o'r 33 gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr.

Derbyniodd y Senedd welliant 55. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn achosi problemau sylfaenol o ran gweithredu dyletswyddau a darpariaethau'r Bil yn effeithiol, drwy gyfyngu ar y pwerau i ddarparu cymorth.

Cynigiodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd Gynnig heb rybudd ar ddydd Mawrth 24 Mai yn y Cyfarfod Llawn, yn gofyn i'r Senedd gytuno i Gyfnod Adrodd. Cytunodd aelodau'r Senedd i'r cynnig mewn pleidlais drwy fwyafrif.

Cynhelir y Cyfnod Adrodd ar 20 Mehefin yn y Cyfarfod Llawn. Rhagwelir wedyn y cynhelir pleidlais Cam 4 ar 27 Mehefin yn y Cyfarfod Llawn.

Disgwylir y bydd cais arall am ganiatâd y Goron yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Mehefin i sicrhau bod y Bil fel y'i diwygiwyd yng Ngham 3 yn cael Cydsyniad y Goron cyn Cam 4 y bleidlais yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Dynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Yn dilyn adolygu a diweddarau ei brosesau a'i weithdrefnau dynodi, yn ei rôl fel awdurdod dynodi Cymru, sefydlodd Cyfoeth Naturiol Cymru Raglen Tirweddau Dynodedig yn ystod blwyddyn ariannol 2022/3. Dyma dîm Rhaglen newydd sy'n cynnwys wyth person, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae strwythurau adrodd a llywodraethu wedi'u sefydlu, gan gynnwys Bwrdd Rhaglen sy'n cyfarfod yn ddeufisol. Mae adroddiadau misol i Lywodraeth Cymru a chyfarfodydd diweddarau deufisol gyda'r Gweinidog yn cael eu cynnal.

Mae gwaith wedi dechrau i wneud y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn rhan annatod o'r broses ddynodi, gan ganolbwyntio'n benodol ar adfer natur a newid yn yr hinsawdd.

Cwblhawyd gwaith mapio'r Ardal Chwilio yn ddiweddar ac mae adroddiad ar y gwaith wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Mae'r Ardal Chwilio yn diffinio uchafswm arwynebedd posibl y Parc Cenedlaethol newydd, er mwyn arwain y gwaith o gasglu ac asesu rhagor o dystiolaeth. Ond nid yw'n cynrychioli ffiniau gwirioneddol/terfynau terfynol y Parc Cenedlaethol newydd.

Ar ôl cwblhau'r gwaith ar yr Ardal Chwilio, bwriedir rhoi contract ar waith i nodi 'Rhinweddau Tirwedd Arbennig' yn yr ardal hon ym mis Gorffennaf. Mae gwaith caffael cychwynnol yn mynd rhagddo ar gyfer yr elfennau dilynol o gasglu tystiolaeth a fydd i ddod. Mae swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal cyfarfodydd ymgysylltu cynnar â'r holl Awdurdodau Lleol yn yr Ardal Chwilio, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd diweddariadau dilynol gyda rhanddeiliaid allweddol yn dilyn ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, a fydd yn rhannu'r Ardal Chwilio.

Mae arweinydd cyfathrebu wedi cael ei benodi i dîm Dynodi Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae gwaith cyfathrebu rhagweithiol yn mynd o nerth i nerth. Paratowyd tudalen wybodaeth ar y we ynghyd â Chwestiynau Cyffredin a chanllawiau gweithdrefnol. Cafodd y dudalen we hon ei chyhoeddi ar 1 Mehefin a bydd yn cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd â gwybodaeth allweddol drwy gydol y broses ddynodi. Yn nes ymlaen yn 2023, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gynnig y Parc Cenedlaethol i gasglu gwybodaeth gan gymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd cyfle hefyd i rannu adborth yn ystod cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn 2024.

Ochr yn ochr â'r gwaith dynodi ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd, mae prosiect Harddwch Naturiol Cymru hefyd yn cael ei gynnal i sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ystyried dynodiadau ychwanegol posibl a dibenion cysylltiedig. Mae cyfarfodydd cychwynnol â rhanddeiliaid wedi cael eu cynnal.

Polisi Bwyd

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu cyfres o bolisiau sy'n ymwneud â bwyd. Rhoddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd grynodedb o'r prif rai yn ei llythyr dyddiedig 28 Chwefror at y pwyllgor, gan egluro sut maent yn rhyngweithio ac yn ymwneud â nodau Bil Bwyd (Cymru). Gyda'i gilydd, egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n llunio'r polisiau. Mae polisiau'n hyrwyddo nodau'r Ddeddf i fod o fudd i unigolion a chymunedau. Maent yn cael eu dyfeisio a'u gweithredu ar y cyd, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid amrywiol, ac yn cyflawni amcanion tymor byr a thymor hir.

Yn ystod yr ymgynghoriad a'r gwaith dilynol o graffu ar y Bil, nododd Llywodraeth Cymru fod rhanddeiliaid yn gyffredinol yn credu nad oedd polisiau'n cael eu cydgysylltu'n ddigonol. Rydym yn hyderus nad yw hyn yn wir oherwydd bod cydweithio a gweithio ar draws portffolios yn rhai o nodweddion y gwaith o lunio polisiau yn Llywodraeth Cymru. Mae polisiau'n cyfeirio at ei gilydd lle bo hynny'n berthnasol ac ychydig iawn o dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses graffu i awgrymu gwrthdaro penodol rhwng polisiau.

Er hynny, fel llywodraeth sy'n rhoi llawer o werth ar weithio mewn partneriaeth a chydweithio â rhanddeiliaid amrywiol, mae'n bwysig iawn bod pawb yn deall y polisiau sydd ar waith ac sy'n cael eu datblygu. Rydym yn derbyn bod gofyn mynd i'r afael â chanfyddiad, bod angen cyfleu'n well beth yw polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd, a sut maent yn cydgysylltu ar draws gwahanol feysydd polisi a sut maent yn ymwneud â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad, rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi dogfen draws-bortffolio ar gyfer rhanddeiliaid sy'n crynhoi ein polisiau eang ac i'w diweddarau o bryd i'w gilydd.

Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd hefyd wedi ymrwymo i gadeirio fforwm trawslywodraethol i sicrhau bod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud yn Llywodraeth Cymru yn cael eu goruchwylio'n briodol er mwyn gallu cydgysylltu a chyfleu polisiau'n well.

Rydym yn cymryd y camau hyn oherwydd ein bod yn cymryd y pryderon a godwyd yn ystod y broses o graffu ar y Bil o ddifrif, sef nad yw polisiau bwyd Llywodraeth Cymru yn cael eu cydgysylltu'n ddigonol. Mae'r ymrwymadau hyn hefyd yn mynd i'r afael â sylwedd argymhellion y pwyllgor i'r llywodraeth pe bai'r Bil yn methu. Y broblem ar hyn o bryd yw pryder ynghylch chwyddiant parhaus mewn prisiau bwyd, sydd oddeutu 19% ar hyn o bryd, ac sy'n cael yr effaith waethaf ar y bobl dlotaf a'r mwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn ymwybodol o broblemau gyda'r gadwyn gyflenwi yn ystod y gaeaf sy'n ymwneud â chyflenwi wyau a llysiau salad ffres.

Mae cyflenwad bwyd Cymru, a'r busnesau sy'n gweithredu yma, wedi'u hintegreiddio'n llwyr i system fwyd gyffredin yn y DU. Mae angen datblygu polisi effeithiol a gweithredu gyda'r realiti hwnnw. Felly, lle mae'n gwneud synnwyr gwneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gweithio gyda llywodraeth y DU a chyrrff cenedlaethol.

Roeddem yn falch bod y Prif Weinidog wedi cynnal uwchgynhadledd "O'r Pridd i'r Plât" Stryd Downing ym mis Mai, lle'r oedd uwch swyddog yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Roeddem yn croesawu'r ymrwymiadau i adolygu'r sectorau wyau a garddwriaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gwaith hwn. Gwnaed llawer o sylw am brisiau bwyd a maint yr elw ac mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cyhoeddi adolygiad i ystyried a yw unrhyw fethiant yn y gystadleuaeth yn cyfrannu at brisiau bwyd uwch. Mae'r Awdurdod wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw ac rydym yn aros am ganlyniad yr adolygiad maes o law.

Contractau Glastir

Mae estyniadau i gontractau Glastir Uwch, Tiroedd Comin ac Organig wedi cael eu cynnig ar gyfer 2023. Dechreuodd y contractau hyn ar 1 Ionawr. Derbyniwyd cyfanswm o 2,295 o gontractau, gwerth dros £30m.

Mae ymestyn contractau Glastir am 12 mis arall yn cyfrannu at ein nodau o warchod a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gwella ein hadnoddau dŵr a phridd, adfer cynefinoedd mawndiroedd ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy weithredu drwy ddatgarboneiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae ymestyn y contractau hefyd yn gyfle i ni gysoni'r gefnogaeth newydd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn y dyfodol.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch cymorth amaeth-amgylcheddol o fis Rhagfyr 2023 ymlaen, pan ddaw'r contract Glastir presennol i ben, at gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae contractau Glastir Uwch, Organig a Thiroedd Comin yn cael eu hystyried yn annibynnol gan eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn wahanol.

Gwneud y mwyaf o wariant yr UE ar y Cynllun Datblygu Gwledig – Adroddiad Archwilio Cymru

Cyhoeddwyd adroddiad Archwilio Cymru o'r enw *Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE - y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig* ar 2 Mehefin.

Mae canfyddiadau'r archwiliad wedi nodi nifer o risgiau - rhai ohonynt y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru - er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid yr UE o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig erbyn 31 Rhagfyr 2023. Cyflwynir y risg, ynghyd â'r mesurau lliniaru, yn yr adroddiad.

Mae heriau sylweddol wedi bod i rai prosiectau oherwydd effaith Brexit, Covid, a phwysau chwyddiant yn fwy diweddar. Mae costau cynyddol deunyddiau adeiladu a phroblemau gyda'r gadwyn gyflenwi yn effeithio ar y costau a'r ddarpariaeth ar adeg pan nad oes llawer o hyblygrwydd ar ôl yn y rhaglen.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda buddiolwyr lle mae risgiau nad yw prosiectau'n cyflawni yn unol â'r amserlenni gofynnol neu lefel ofynnol yr allbwn. Byddant hefyd yn ystyried ceisiadau am estyniad i gyflwyno hawliadau yn hwyrach na'r dyddiadau cau a gyhoeddwyd, fesul achos, ar yr amod bod modd dilysu a thalu hawliad terfynol prosiectau cyn 31 Rhagfyr 2023.

Gall cyflwyno hawliadau'n hwyr arwain at oedi wrth gwblhau'r holl archwiliadau gweinyddol a'r trefniadau rheoli ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyllid yr UE. Er mwyn sicrhau bod yr holl archwiliadau gweinyddol yn cael eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau, mae swyddogion yn anelu at gwblhau'r holl drefniadau rheoli erbyn mis Hydref ac wedi gorfod cyflwyno terfynau amser pendant ar gyfer darparu gwybodaeth o dan y broses arolygu 'in-situ' hon. Gall methu â darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol neu ddogfennau ategol arwain at gosbau.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar brosesu'r nifer fawr o hawliadau'r Cynllun Datblygu Gwledig a ddaeth i law ac a ddisgwylir o hyd cyn 31 Rhagfyr. Mae hyn hefyd yn cynnwys hawliadau Glastir 2023 (ar ôl cyflwyno Ffurflen y Cais Sengl eleni) a oedd fel arfer yn talu yn y flwyddyn ganlynol.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw'r cynllun mawr newydd cyntaf sy'n seiliedig ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Mae'n adlewyrchu amcanion Rheoli Tir yn Cynaliadwy yn y Bil i helpu ffermwyr i leihau eu hól troed carbon a chyflawni dros fyd natur gan barhau i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ar yr un pryd, drwy fusnesau amaethyddol cydnerth. Mae hefyd yn cydnabod y rôl allweddol y mae ffermwyr yn ei chwarae yn gwarchod ein hiaith, ein treftadaeth a'n diwylliant.

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y set fwyaf manwl o gynigion hyd yma. Defnyddiwyd y cynigion hynny fel sail i ail gam y gwaith o gyd-ddylunio drwy gydol rhan olaf y flwyddyn. Mae'r canlyniadau cyd-ddylunio'n dal i gael eu dadansoddi, a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bydd y gwaith dadansoddi wedi'i gwblhau.

Mae plannu coed yn dal yn bwnc llosg. Cawsom lawer o adborth ar blannu coed drwy gyd-ddylunio, ac rydym yn dal i archwilio sut mae modd integreiddio'r opsiynau hyn mewn ffordd sy'n gweithio i bob math o ffermydd.

Mae ein Gweithgorau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn parhau. Mae'r grwpiau hyn yn helpu i ddatrys rhai o'n heriau mwyaf a mwyaf cymhleth;

- Mae'r grŵp Tenantiaeth wedi bod yn edrych ar yr heriau unigryw y mae ein sector tenantiaid pwysig yn eu hwynebu o ran cyflawni holl gamau'r cynllun, a goblygiadau contractau pum mlynedd arfaethedig y cynllun lle nad oes gan y tenant ddaliadaeth ddigonol.
- Mae'r grŵp newydd-ddyfodiaid wedi gorgyffwrdd rhywfaint â chanfyddiadau'r grŵp tenantiaeth, ond mae hefyd wedi bod yn edrych ar atebion i rai o'r prif rwystrau sy'n atal newydd-ddyfodiaid, sy'n ymwneud yn bennaf â diffyg mynediad at dir, cyllid a sgiliau. Mae'n debygol y bydd rhai o'r atebion hyn y tu allan i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy craidd.
- Mae'n bosibl mai'r grŵp tir comin sy'n wynebu'r her fwyaf. Mae'r grŵp yn ystyried a ellir defnyddio'r model Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar dir comin, a sut gellir gwneud hynny, ac os nad oes, pa opsiynau eraill y mae angen eu hystyried. Ar sail eu 'hawliau' ni all y porwyr tir comin gyflawni'r rhan fwyaf o gamau arfaethedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, mae cytundeb cyffredinol ar bwysigrwydd tir comin ar gyfer amrywiaeth eang o fanteision economaidd, ecolegol a diwylliannol, felly mae trafodaethau'n parhau.

Byddwn yn defnyddio'r adroddiadau a'r allbynnau wedi'u cyd-ddylunio o'n gweithgorau, ynghyd â'r gwaith parhaus o ddatblygu polisiau, i helpu i lunio fersiwn nesaf cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn destun ymgynghoriad terfynol ar y cynllun tua diwedd y flwyddyn hon. Ni fydd unrhyw

benderfyniadau terfynol ynghylch dyluniad y cynllun yn cael eu gwneud nes bydd yr ymgynghoriad nesaf hwn wedi dod i ben.

Rydym yn annog unrhyw ffermwyr sy'n cael cyfle i ddechrau ymgymryd â champau gweithredu Rheoli Tir yn Gynaliadwy i wneud hynny. Bydd gweithgareddau fel adfer mawndiroedd a phlannu coetiroedd newydd - os gwneir hynny cyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yn cael eu hanrhydeddu yn y cynllun fel rhan o daliadau cynnal a chadw. Mae cyllid ar gael nawr i ymgymryd â rhai o'r camau gweithredu hyn, ee mae grantiau Creu Coetir yn parhau i gefnogi plannu ar raddfa fach a mawr gyda chymorth cyllid ar gyfer gweithwyr proffesiynol medrus i helpu i ddatblygu cynlluniau.

Rhaglen i Ddileu TB mewn Gwartheg

Lansiwyd ein Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer TB ym mis Mawrth 2023. Mae'n amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer dileu TB mewn gwartheg dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys set gynhwysfawr o fesurau sy'n cwmpasu ein hymrwymiad i greu partneriaethau gweithio cryf gyda rhanddeiliaid er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

Mae'r camau blaenoriaeth a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni yn cynnwys:

- Trefniadau llywodraethu - sefydlu Bwrdd Rhaglen a Grŵp Cyngori Technegol newydd ar gyfer y Rhaglen i Ddileu TB, drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer pob grŵp.
- Brechu Gwartheg - Parhau i ymgysylltu â gweinyddiaethau eraill a'r diwydiant ynghylch strategaeth defnyddio'r brechlyn.
- Sefydlu prosiect peilot yn rhanbarth Sir Benfro i fynd i'r afael â lefelau disyflyd y clefyd, yn dilyn ymarfer caffael.
- Cytuno ar fesurau rheoli gwartheg ychwanegol a'u rhoi ar waith ar Ynys Môn, neu'n ehangach ar draws yr Ardal TB Isel a dechrau ar y gwaith o frechu moch daear ar Ynys Gybi fel rhan o becyn o fesurau dwys i fynd i'r afael â'r cynnydd sydyn ym mynychder TB yn y rhanbarth.
- Cam cynnydd I y newidiadau deddfwriaethol a nodir yn y Cynllun Cyflawni, gan gynnwys cyflwyno Profion Cyn Symud yn yr Ardal TB Isel ac ehangu Profion ar ôl Symud i'r Ardaloedd TB Canolradd.

Llywodraethu

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd fod Grŵp Cyngori Technegol wedi'i sefydlu i helpu i gefnogi'r Rhaglen TB a bod yr Athro Glyn Hewinson, Cadeirydd Sêr Cymru o'r Ganolfan Ragoriaeth TB, wedi'i benodi i arwain y gwaith hwn. Bydd aelodau'r grŵp hwn yn cael eu Penodi'n Gyhoeddus, felly hefyd y cadeirydd ac aelodau Bwrdd y Rhaglen Dileu TB.

Rôl y Grŵp Cyngori Technegol fydd ystyried ac adolygu polisiau TB, gan ystyried tystiolaeth bresennol a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, ac mae nifer o flaenoriaethau allweddol wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried protocolau presennol profi TB ac adolygu'r broses o ladd gwartheg beichiog sy'n dioddef o TB ar ffermydd.

Un o brif flaenoriaethau Bwrdd y Rhaglen Dileu TB fydd ystyried cynnwys rhanddeiliaid yn y Rhaglen, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella cydweithrediad, cydweithio a pherchnogaeth drwy fwy o ymgysylltu, yn unol ag [argymhellion](#) y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu â Ffermwyr.

Ymchwil Brechu Gwartheg

Mae treialon maes brechu gwartheg yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ac os byddant yn llwyddiannus, bydd ffermwyr a milfeddygon yn symud gam yn nes at allu brechu eu hanifeiliaid rhag y clefyd.

Bydd y treialon yn caniatáu i ni gynhyrchu digon o dystiolaeth i gefnogi cais Awdurdod y Farchnad i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol i ddefnyddio'r ddau gynnyrch yn y DU.

Ynys Môn

Mae tîm epidemiolegol Cymru yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion wedi canfod sefyllfa sy'n gwaethygu ar Ynys Môn gyda chynnydd diweddar yn nifer yr achosion o TB. Mae data gwylidwriaeth yn dangos bod naw achos agored ar Ynys Môn ar 31 Rhagfyr 2022. Mae hyn yn cymharu ag wyth ar 31 Rhagfyr 2021, dau ar 31 Rhagfyr 2020 a thri ar 31 Rhagfyr 2017.

Mae opsiynau ar y gweill i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg ar Ynys Môn ac i amddiffyn moch daear rhag cael eu heintio â TB. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys asesu dichonoldeb prosiect brechu moch daear pedair blynedd ar Ynys Gybi, a byddem yn anelu at ddechrau'r prosiect hwn eleni.

Newidiadau Deddfwriaethol

Mae'r Cynllun Cyflawni newydd yn rhoi cyfle inni bwysu a mesur y cynnydd a wnaed o ran ein hymrwymiad i ddileu TB buchol o Gymru. Mae'r prif newidiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 a fydd yn cryfhau ein deddfwriaeth ymhellach i ddarparu'r arfau i gyflawni'r nod o ddileu erbyn 2041 yn cynnwys:

- [Gwahardd bwydo llaeth heb ei drin i dda byw ar safleoedd OTFW.](#)
- Cyflwyno gofyniad cyfreithiol i ffermwyr beidio â symud gwartheg rhwng diwrnod 1 y prawf (diwrnod brechu, a elwir yn TT1) a diwrnod 2 y prawf (diwrnod darllen y prawf, a elwir yn TT2) a rhwng profion gwaed a'r adeg y ceir y canlyniadau.
- Nodi ar ibTB ers sawl blwyddyn mae'r fuches wedi bod yn rhydd o TB.

- Adfer Profion Cyn Symud wrth symud gwartheg yn yr Ardal TB Isel, gan barhau i gynnal Profion Ar ôl Symud.
- Cyflwyno Profion ar ôl Symud wrth symud gwartheg o Ardaloedd TB Uchel, o Ardal Risg Uchel Lloegr ac o Ogledd Iwerddon i ddaliadau mewn Ardaloedd TB Canolradd.

Cefnogi Ffermwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r effeithiau posibl y gall TB buchol eu cael ar deuluoedd sy'n ffermio ac eraill, a'r straen a'r gofid y gall achos o TB eu hachosi. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cynlluniau i gefnogi ffermwyr fel rhan o'r Rhaglen, gan gynnwys cymorth milfeddygol Cymorth TB ac ymweliadau Ei Gadw Allan.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid i sefydliadau gan gynnwys Sefydliad DPJ a'r Farming Community Network i ddarparu cymorth a chynghor i ffermwyr sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys Canolfan Wybodaeth FarmWell Wales sy'n cael ei rhedeg gan Farming Community Network. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru hefyd wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Sefydliad DPJ a Tir Dewi.

Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni diwygiedig ar gyfer TB, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, rydym wedi ymrwmo i weithio i wella'r berthynas rhwng ffermwyr a'r Llywodraeth drwy gyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn empathig wrth drafod TB. Mae lleihau ffynhonnell y straen yn rhan flaenllaw o'n blaenoriaethau.

Taliadau TB

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddilyn llwybr partneriaeth a chyd-ddylunio wrth ddatblygu polisi TB. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r diwydiant ffermio ynghylch unrhyw newidiadau polisi posibl o ran taliadau TB, mae hefyd yn bwysig bod Bwrdd y Rhaglen Dileu TB, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau hyn ac yn cyfrannu at lunio opsiynau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon